

Cylchdaith – Pentraeth (SH523784)

Gweler y map isod

1. Maes parcio Pentraeth – Draeth Coch

Parciwch ym maes parcio Brick street yng nghanol Pentraeth, a dilynwch yr arwydd ar gyfer taith gylchol 'DONA' i lawr Brick Street i Stryd y Capel. Wrth arwydd y llwybr troed trowch i'r dde trwy'r giât mochyn ger y grid gwartheg. Dilynwch y llwybr hwn i'r grid gwartheg nesaf a'r giât mochyn fetel, yn syth wedyn gadewch y llwybr a cherddwch yn syth ar y llwybr troed dros y cae trwy fwlch yn y gwrychyn i'r giât mochyn fetel nesaf a dilynwch y llwybr hwn at giât fetel las ac yna at lwybr arall. Cadwch i'r dde ac yna i'r chwith gan ddilyn y llwybr i lawr i Draeth Coch, trowch i'r dde a chroeswch y bont gul dros Afon Nodwydd i'r lôn tarmac, trowch i'r chwith tuag at faes parcio'r traeth.

2. Traeth Coch – Goch y Mieri


Dilynwch Llwybr Arfordir Ynys Môn tua'r dde gan gadw'r môr ar eich chwith. Dilynwch y llwybr hwn am 2 cilomedr heibio mynedfeydd Tŷ'n Coed a Tŷ Mawr ar y dde, ble mae'r llwybr yn mynd tua'r chwith o amgylch prysgoed ac afon fechan. Parhewch hyd at gwt pren bychan Ger-y-Mor ac yn union ar ôl yr adeilad hwn trowch i'r dde at y marciwr ffordd ar hyd y lôn.

3. Coch y Mieri – Bentraeth

Parhewch ar hyd y pellter byr hyd at y lôn tarmac a throwch i'r dde gan ddilyn arwydd Llwybr Arfordir Ynys Môn ar hyd llwybr fferm gyda giât at Goch y Mieri. Ar ôl 300 metr wrth bostyn giât concriid trowch i'r chwith oddi ar y llwybr i lwybr troed sydd wedi ei arwyddo, dilynwch linell y ffens ar y dde o amgylch cefn adeiladau Coch y Mieri gan ddilyn y marcwyr ffyrdd. Parhewch ar hyd y llwybr tua'r dde rhwng wal a ffens hyd at gamfa ysgol ar y dde (gyferbyn â'r gamfa bren sy'n mynd i fyny'r allt i goedwig Pentraeth) Dilynwch Llwybr Arfordir Ynys Môn i'r chwith ac ar hyd y llwybr at giât mochyn fetel.

Parhewch yn syth ymlaen gan ddilyn llinell y ffens ar y chwith trwy giât mochyn bren. Yn ymyl yr ail giât mochyn bren, dilynwch y llwybr i lawr goleddf a chadwch at y chwith wrth ymyl y marciwr ffordd i lwybr arall. Dilynwch y llwybr hwn hyd at fynediad giât Tŷ Mawr yna trowch i'r chwith gan ddilyn yr arwydd llwybr troed tu ôl i'r eiddo hwn ar hyd y llwybr at ymyl y goedwig a hyd at giât mochyn bren. Lle mae'r llwybr yn gwahanu wrth y marciwr ffordd, cymerwch y llwybr i'r dde i lawr allt i lwybr wrth fynediad Tŷ'n Coed, yna trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr hwn.

Wrth bostyn arwydd bys i Dan y Mynydd a Tŷ'n Coed cadwch at y chwith at Dŷ Gair, cadwch at y dde ac ewch yn union o flaen yr eiddo hwn i'r lôn tarmac ger mynediad Glan Morfa, trowch i'r chwith a dilynwch y lôn hon hyd at gyffordd lôn y traeth. Mae teliffon a blwch llythyr ar ochr chwith y gornel hon. Trowch i'r dde tuag at faes parcio'r traeth sydd bellter byr ar y chwith, wrth yr arwydd ewch yn ôl dros bont Afon Nodwydd ac ewch yn ôl yr un ffordd i faes parcio Pentraeth.



Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.